# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC: Tom Jones, 22, Endsleigh Road, Hen Golwyn. LL29 9DT  Ffôn: 01492 515999  Sym: 07774 833523
e-bost: clerc@betwsdallanelian.org.uk

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN GYMUNEDOL, LLANELIAN YN RHOS YN RHOS, AM 7.30y.h. NOS LUN, 6ed O CHWEFROR, 2023.**

## 1. CROESO
Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS pawb i'r cyfarfod.

## 2. YN BRESENNOL
Y Cynghorwyr John EVANS; Glenna HUMPHREY; D Gwyn JONES; Hefin WILLIAMS; Goronwy R. WILLIAMS; Gethin OWEN; Bryn JONES; Cynghorwr Sir Ifor G WILLIAMS.

## 3. YMDDIHEURIADAU
Y Cynghorwr John D ROBERTS.

## 4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny.  Mae'r Cynghorydd  Ifor LLOYD wedi dweud ei fod o'n eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw  benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

a.  Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw un.

## 5. MUNUDAU

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed o Ionawr, 2023.  (Cynnig y Cynghorydd Goronwy R WILLIAMS ac eilwyd gan y Cynghorydd John EVANS).

## 6. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw fater yn codi.

## 7. CYLLID
a. Cafwyd Adroddiadau Misol am y cyfnod dod i ben 20fed o Ionawr 2023. Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

| | | |
|---|---|---|
| (1) | Cyfrif Cymunedol | = £9,624.39 (Dwyn Ymlaen) |
| | Arian i Mewn | = £0.00 |
| | Arian Allan | = £6.60 (Costau Banc - DR) |
| | | = £55.80 (Aston Hughes – Gwasanaeth Cyflog – TAL) |

| | |
|---|---|
| | = £405.39 (Cyflog y Clerc – SO) |
| | = £101.40 (Taliad i'r HMRC – SO) |
| Heb ei Cyflwyno | = £40.00 (ICO GDPR – Tal Blynyddol – 200151) |
| Cyfrif Cymunedol | = £9,055.20 (Cludwyd Ymlaen) |
| (2) Cyfrif Busnes | = £5,559.52 (Dwyn Ymlaen) |
| Arian Allan | = £0.00 |
| Arian i Mewn | = £0.00 |
| Cyfrif Busnes | = £5,559.52 (Cludwyd Ymlaen) |
| Cyfanswm | = £14,614.72 |

Cytunodd pawb a'r adroddiadau yma.

b. Ynglun a bancio ar-lein mae'r Clerc yn nawr yn talu dylebau ar lein ble yn bosib. Bydd angen gwneud trefniadau i brosesu rhai taliadau rheolaidd drwy D/D a S/O.

**8. GOHEBIAETH**

**i. Derbynwyd**

a. Llythyr gan geisiadydd cynllunio Springtime Lodges Ltd
b. Llythyr gan Darren Millar AS yn cynnig ei bresennoldeb yn un o'n cyfarfodydd
c. Census angen ei chwblhau gan Achub Bywyd Cymru ynglyn a defibrillators
d. Llythyr gan UK Shared Prosperity Fund
e. Llythyr gan Mrs Ann Vaughan ynglun a mynwent Trofarth
f. Llythyr gan CSBC ynglun a WiFi I'r Pafiliwn Chwaraeon
g. Llythyr gan Elan Mai Roberts ynglun a Cwmni Drama Ieuenctid. Penderfynwyd roi rhodd o £200 tuag at gostau hurio y Neuadd bentref ayyb.
h. Llythyr ynglun a coroni y Brenin Siarl III

**ii. Anfonwyd**

i. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
j. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.
k. Llythyr ynglun a UK Shared Prosperity Fund i Bwylgor Canolfan Cymunedol Llanelian.

**9. GRANTIAU**

**i. Ceisiadau i'r Cyngor i'w talu pan dderbynnir Praesept 2023-2024**

a. Ty Gobaith
b. Henoed Llanelian
c. Mynwent Trofarth
d. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru
e. Urdd Gobaith Cymru
f. Eisteddfod Calan Mai

**ii. Caisiadau gan y Cyngor**

a. Lleoedd LLeol ar Gyfer Natur - tuag at blannu blodau gwyllt ayyb yn ymyl Pafiliwn y cae chwarae yn Betws yn Rhos wedi cael ei llenwi a'i gyrru i mewn – Bu hwn yn llwyddianus a mae'r pecyn wedi cyrraedd. Bu trafodi ynglun a ble iw rhoi a chafwyd ambell gynnig. Angen trafod gyda trigolion pentref Betws yn Rhos ble iw rhoi.

b. Offer y cae chwarae. Bydd rhaid edrych am grant sylweddol i gael offer newydd. Y Clerc i gael dyfynbris newydd gan gwmniau offer chwarae er mwyn cael syniad o faint o grant fydd angen.

**10. CYNLLUNIO - http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer**

a. Rhif y Cais: 0/50362 Cyfeirnod Grid: 290484,373356
Natur y Cais: Llawn RhD Derbyniwyd : 18/11/2022 Cofrestrwyd: 10/01/2023
Natur y Datblygiad: Datblygiad Newydd

Dosbarth Etholiadol: Betws Yn Rhos Cyngor Cymuned: Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos Community Council
Lleoliad: Tir yn Bron Derw Betws Yn Rhos Conwy LL22 8FD Cais: Codi annedd newydd a gwaith cysylltiedig
Cais gan Mr Barry McDOWELL, 106 Foryd Road, Kinmel Bay
Bydd angen cael gwybodaeth pellach am faint, mesurau, a nifer ffenestri er mwyn gwneud yn siwr nad yw yn ormodol I'r safle ac yn gweddu gyda'r ardal.

**11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL**

Mae'r Clerc yn aros am ganlyniad yr Archwiliad Allanol (Archwiliad Cymru). Yn dilyn galwadau ffon mae'n amlwg y bu i dipyn o broblem fod gyda Archwiliad Cymru y flwyddyn diwethaf, a mae hyn wedi achosi oedi hir i rai archwiliadau.

**12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD**

a. Mae Cyngor Conwy wedi penderfynny rhoi gwaharddiad cyflymdra o 30mya drwy bentref Llanelian. Bydd y Gwaith yn cael ei wneud yn yr wythnosau nesaf
b. Problemau ar ffordd B5381 wrth Bryn Pin. Mae cwmni Hogans wrthi yn paratoi I wneud gwaith cynnal a chadw ar y ffordd yma.
c. Mae Cyngor Conwy yn awr wedi caniatau parhau y brydles ar Ganolfan Gymunedol Llanelian sydd yn caniatau i'r broses o gael grantiau fynd ymlaen.
d. Mae achosion o adael ysbwriel ar ochr ffyrdd yr ardal yn dal yn broblem. Rhaid ceisio cael pawb i gymeryd manylion unrhyw un sydd yn cael ei gweld yn gadael ysbwriel yn ein manau agored..

**13. CYFARPAR AR GYFER GWNEUD Y CYFARFODYDD YN RHITHIOL**

Er mwyn cynwysiedigaeth, mae angen edrych ar ffordd o alluogi aelodau o'r Cyngor a'r cyhoedd gymeryd rhan yn y cyfarfodydd yn rhithiol pe baent am unrhyw reswm yn methu bod yno mewn person. 'Rydym nawr wedi cael dyfynbris rhesymol. Gan fod y cyfarfod hwn yn y Pafiliwn Chwaraeon penderfynwyd cael cyfarfodydd y Cyngor yn yma ohyn ymlaen bob yn ail a Llanelian. Penderfynwyd hefyd i archebu y cyfarpar angenrheidiol unwaith y bydd y modd i gael WiFi i'r

Pafiliwn wedi ei ddatrys. Mae Cyngor Conwy yn gwrthod rhoi, na chaniatau i ni gael linc i'r WiFi sydd yn y neuadd Bentref. Bydd rhaid yn awr gofyn i BT os oes bosib iddy nhw wneud.

**14. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL**

a. Arwydd ffordd ar gornel Capel Bach Sion – mae cost ail wneud arwydd o'r un defnydd yn ormodol felly angen gofyn i'r cyngor osod arwydd newydd.

b. Cyfarpar chwaraeon i blant iau ar gae chwarae Betws yn Rhos – angen aros i Gyngor Conwy wneud gwaith cynnal a chadw ar y cae chwarae ac yn y cyfamser edrych am grant i gael mwy o offer.

c. Gordyfiant ar lonydd gwyrdd a llwybrau lleol – angen hel gwybodaeth am bob man ble mae angen gwaith cynnal a chadw er mwyn ei yrru i Gyngor Conwy. Angen rhoi darn yn y Gadlas i ofyn i'r rhai sydd yn defnyddio y llwybrau wneud nodyn o'r diffygion.

**15. FFERM WYNT ALLTRAETH AWEL Y MOR & GWYNT Y MOR**

Mae'r Cyngor yn awr wedi ei cofrestru gyda Cwmni Awel y Mor fel cymdeithas sydd a diddordeb yn y broject er mwyn cael gwybodaeth reolaidd am y cynlluniau. Byddwn yn cadw golwg ar y datblygiadau. Mae prosiect arall ar y gweill yn awr hefyd sef Gwynt y Mor. Mae'n bosib y bydd y ceblau o'r brosiect hon yn cael ei gyrru drwy ranau o ardal Betws yn Rhos.

**16. YMGYRCH LEOL I REOLI FFERMYDD GWYNT**

Bu i 89 o fobl fynychu y cyfarfod cyhoeddus gafodd ei gynnal yn Neuadd Bentref Betws yn Rhos am 7.30yh ar y 30ain o Ionawr. Roedd y wybodaeth a gafwyd o safon uchel ac yn dangos cymaint o waith oedd wedi cael ei wneud i edrych i mewn i effaith cael y ffermydd gwynt yn yr ardal. Cafwyd sgwrs agored gyda ac fe roedd yn amlwg for gwrthwynebiad cryf r'r syniad. Mae y pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor yma ond anodd iawn iw cymeryd unrhyw gamau pellach heb yna fod gais cynllunio ar gyfer fferm o'r fath yn cael ei gwneud i Gyngor Conwy. Os bydd hyn yn digwydd bydd y Cyngor yn ysgrifennu ar unwaith 'r CJC (Combined Joint Council) pan fydd y corff hwnnw wedi ei fodoli. Penderfynwyd roi rhodd o £200 tuag at gostau paratoi a chynnal y cyfarfodydd.

**17. LLWYBR NATUR**

Cynigwyd edrych ar yr hen ffordd porthmon ac hefyd yr hen ffordd rufeinig fel posibilrwydd o wneud llwybyr natur yn y fro. Mae angen cael cymorth gan rhywun sydd yn adnabod y llwybrau cyhoeddus lleol ac hefyd yn gwybod ar pa fath o fywyd natur a ddisgwylir iw weld ar hyd y llwybrau. Cynigwyd hysbysu ar y bordiau gwybodaeth, ar daflen we yr ardal ac hefyd gyda'r gymdeithas gerdded yn Y Gadlas. Does dim ymateb wedi bod i'r syniad yma hyd yn hyn. .

**18. CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS**

Mae yr eitem yma ar yr agenda er mwyn cadw cofnod o sut mae y gwaith yn dod yn ei flaen, ac er mwyn rhoi cefnogaeth pan y bydd angen. Mae Cyngor Conwy yn awr wedi caniatau parhau y brydles ac felly mae y broses o gael grantiau yn medru mynd ymlaen.

**19. Y GADLAS**

Angen rhoi erthygl yn Y Gadlas am lwybrau cyhoeddus yn yr ardal, i gynnwys camfeydd a gatiau.

**20. PRAESEPT 2023/2024**

Mae'r Clerc wedi paratoi y cais a'i yrru i Gyngor Conwy. Cawn dynu'r item yma oddi ar yr agenda.

**21. CYSIDRO AELOD YCHWANEGOL I'R CYNGOR**

Mae angen cysidro edrych am aelod newydd i'r Cyngor i lenwi'r bwlch sydd yn bodoli. Pawb i wneud ymholiadau i weld os oes unrhyw un a diddordeb.

**22. UNRHYW FATER ARALL**

a. Angen holi Cyngor Conwy pam nad oes gwaharddiad cyflymdra wrth Ysgol y Plas.
b. Angen dod a sylw Cyngor Conwy i gyflwr gwyneb y ffordd ar gyffyrdd yr ardal.
Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.40y.h.

CADEIRYDD: …………………………… Irwedd Griffiths

CLERK: …………………………… Tom Jones DYDDIAD: 6ed Mawrth 2023